


Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

16fed Ionawr 2023

Annwyl Gyfaill

Cynhelir cyfarfod nesaf CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher y 25ain Ionawr 2023 am 7.30pm yn y Neuadd Dinas Mawddwy

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir

Huw T Jones

CLERC

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed Rhagfyr 2023 – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi/i'w hadrodd**
 - a) Materion Priffyrdd a Chefnffyrdd.
 - b) Tyllau Maes Parcio Lawnt y Plas/perchnogaeth darn o dir
 - c) Hysbysfyrddau/ byrddau gwybodaeth.
 - d) Darnau o dir heb eu cofrestru yn ardal Dinas
 - e) Hyfforddiant Cynghorwyr.
 - f) Meddygfa Machynlleth.

5. Materion Cynllunio – ar ol ei ddsbarthu ichwi, ymatebwyd ar un cais ers y cyfarfod diwethaf, sef;

NP5/74/L167H - Trosi capel i dŷ a gosod ffenestri to i'r edrychiad cefn a gosod uned trin carthion - Capel Tarsus, Cwm Cywarch, Dinas Mawddwy. SY20 9JG (*disgrifiad y cais wedi newid*)

6. Materion Cyllid.

- Ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor i weddill y flwyddyn hon, ac edrych ymlaen i 2023-24 .
- **Anfonebau i law** - Tegid Humphreys – torri gwair mynwentydd Llanymawddwy a Mallwyd, a gwaith yn mynwent Llanymawddwy.
- Cais am arian - mudiad Yes Cymru

7. Gohebiaeth

- Cyfarfod Un Llais Cymru Meirionnydd – 15fed Gorffennaf (gwraig wadd Liz Saville Roberts AS)
- Cais am fin halen o'r newydd gan aelod o'r cyhoedd. (*noder hefyd fod angen gwybod a oes biniau o fewn y gymuned angen eu llenwi*)
- Llythyr aelod o'r cyhoedd ynglyn a'r gwaith ym Mynwent Llanymawddwy.

8. Unrhyw fater arall